

Tud 1.

Cofnodion Drafft Cyngor Cymuned Llanbedr 3.9.26

Yn y Neuadd Bentref Llanbedr am 7.30 o,r gloch.

YN BRESENNOL

Eirwyn Thomas, Robin Ward, Gwynfor Owen, Helen Johns, Kevin Titley, Luise ar Zoom, Annwen Hughes. John Evans.

YMDDIHEURIADAU

Nia Jones, Jane Taylor Williams

GAIR O GROESO- Gan Eirwyn Thomas. Newydd droi 7.30 Croesawu pawb I gyfarfod mis Medi.

DATGAN BUDDIANT – Dim l'w ddatgan.

CEISIADAU CYNLLUNIO- cais cynllunio Bryn Golau – perthyn I Gyngor Llanfair.

ADRAN CYLLID – Yn y Banc £27763.09

Derbyniwyd presept o £14500 – felly yn gwneud cyfanswm o £42263.09

Yn ystod mis Awst bu taliadau fel a ganlyn am waith:-

Llogi Neuadd	£24.00	
J A Perratt Kerr	£330	gwaith yn y cae chwarae – cae deiliog
Archwiliad Mewnol	£600	Hwn yn codi bob blwyddyn (angen gwell cyllideb)
Rhodd Ysgol Feithrin	£500	
Mynwent	£225	(Colin Evans hen fynwent)

Derbyn cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf, fel rhai cywir.

UNRHYW FATERION YN CODI

1. Y FYNWENT – Angen cadw golwg ar rai beddau – gyda blodau/planhigion wedi eu plannu arnynt. Perygl o gymerud trosodd, ac yn ymylu ar feddau eraill..

Wal rhwng y 2 fynwent – I weld yn simsan iawn. Jane wedi awgrymu y byddai pobl yr eglwys yn hoffi gweld toiled yn y cwt. Hyn l'w drafod mis nesaf.

Coeden neu llwyn Buddleia ger y llwybr l'r Eglwys – angen ei dorri.

2. CAE CHWARAE – bod angen gwneud cais am grant at y wet pour. Wedi derbyn 2 amcanbris rhwng £4000 a £6000. Hyn yn andros o ddrud a dim cyllid ar eu gyfer.

AH yn cynnig y dylwn wneud holiadur beth mae'r plant Ysgol ei angen yn y cae chwarae.

Bellach mae'r offer wedi colli eu lliw.

Nododd Kevin y dylid cael barn y plant uwchradd hefyd.

Bod gwaith arall yma sef goleuadau trydan wedi cychwyn. Y golau yn gweithio bellach.

Tud 2.

Plygu Gwrych – wedi cael cyfarfod yn y cae chwarae yn ystod yr haf gyda 2 swyddog o'r Parc Cenedlaethol. Yn hapus efo'r bwriad i blygu y gwrych. Grant wedi ei sicrhau. Angen cysylltu gyda y gweithwyr a hefyd Ysgol Ardudwy a Ysgol Llanbedr i edrych a fyddent yn hoffi dod i weld y gwaith yn cael ei wneud – un o draddodiadau cefn gwlad. Gwaith i gychwyn ym mis Tachwedd.

3.MATERION CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad Cynghorydd Annwen Hughes –

Hot topic y tan ar yr Rhinogydd yn ystod yr haf a fu'n cynna am dros 2 wythnos. Cychwyn oherwydd blerwch un dyn ger Gloylyn. 9 brigad dan yno ar un adeg. Cwyn parthed diffyg cymorth gan hofrennyddion ar orchymyn Cyfoeth Naturiol Cymru. Tirfeddiannwyr ochr Cwm Bychan wedi talu am hofrennydd preifat i geisio lleihau y tanau rhag ymestyn drwy'r tir i gyd.

Bod cones dal ar y ffordd gyferbun ar Neuadd. Goleuadau heb eu gosod ar y polion hyd yma.

Hydref 14 fydd ffordd Sarn Hir wedi cau oherwydd ail dario gwyneb y ffordd. Yn ystod y nos fydd y gwaith yn cael ei wneud. (Angen cysylltu gyda Caroline Evans parthed hyn – mae hi yn gwneud Gwaith ar Y Garth, ac yn cael adeiladwyr yno i weithio. Pryderus fyddent yn methu cyrraedd.

Mwy o wybodaeth parthed ffordd liniaru ym mis Tachwedd.

Camper Vans yn asos dros nos mewn gwahanol arosfannau led led y plwyf. Angen i Cyngor Gwynedd osod arwyddion i rwystro hyn.

Mainc er cof – ger Cambrian Clerance – y Clerc wedi hysbysu'r perchennog o hyn. Angen tocio yn ol Arwydd Ysgol ger y Felin.

Adroddiad Cyngor Gwynfor Owen

1. Campervans – yn broblem drwy'r Sir i gyd. Yn mynd i gynnig bod Cyngor Gwynedd yn monitro y sefyllfa (Cyngor llawn).
2. Ar yr 19 o Fedi bydd ffordd Mochras yn cau er mwyn i Network Rail wneud Gwaith dros nos. Gobeithio na fydd hyn yn amharu ar y trenau gan ei fod yn Wyl Gwrw.
3. Bydd ffordd Bont Briwet hefyd ar gau . Bydd BT yn gwneud gwaith tebyg i'r hyn wnaethpwyd yn Nhalsarnau. 2 ddiwrnod ar gau (dydd mawrth a dydd mercher. Am 4 awr y dydd. Angen sicrwydd y bydd disgyblion Ysgol Ardudwy a Hafod Lon yn cael mynd trwodd heb oedi. Ac wrth gwrs trafnidiaeth argyfwng.
4. Tan ar y Rhinogydd – angen post mortem ar hyn – beth aeth o'i le? Pam nad oedd yr hofrennydd ar gael yn syth? Pam nad oedd y drones ar gael o'r Camp?
5. Cafwyd cyfarfod arall hefyd gyda Jane T Williams i ddelio gyda'r holl e byst yn cwyno parthed swm y drones. Yn bresennol hefyd ydoedd Becca Brown a Roger Maine . Prif gwyn ydi'r swm byddarol y wind racers. Bod Cwmni Anduril yn rheoli y Maes Awyr yn awr. Angen codi hyn hefyd mewn Cyngor llawn. Gadael yn nwylo Becca Brown.
6. Nododd GO bod y Cyngor yn edrych yn barod ar doriadau o bosib hyd at 5% y n eu cyllideb i'r flwyddyn nesaf.
7. Ardoll Ymwelwyr – ymgynghoriad ar y mater yma yn dal yn agored .Gwahanol nifer o ymatebion megis

Ynys Mon 2000 wedi ymateb, Conwy 1000 o ymatebion a Cyngor Gwynedd gyda 7000 o ymatebion.

Tud 3.

Y rheini sydd wedi ymateb rhwng 1 a 3% wedi darllen y canllawiau yn unig.

Dileu hyn am y tro er mwyn rhoi tegwch l'r pwnc.

- a) Gwaith cattle grids wedi ei wneud.
- b) Tyllau yn y ffordd – gwaith wedi cychwyn heddiw
- c) Draeniau/carffosiaeth Bryn Deiliog – hwn wedi ei wneud.

UNRHYW FATERION ERAILL

1. Sul y Cofio – yda ni yn cadw l'r un drefn a llynedd? Ie, ond ail neud pwy sydd yn cymerud rhan.

Dal heb dderbyn gwybodaeth gan J.L.Richards parthed awyren yn dod lawr wrth Gloylyn.

2. Gan ei fod yn fis medi bellach, a ydym yn mynd i gychwyn ar y CCTV?

Nododd GO bod Cyngor Gwynedd yn gofalu am CCTV mewn ardaloedd eraill o Wynedd fel Arfon a Dwyfor. Ddim yn sicr beth yw'r telerau

3. Ymweliad Criw Huchenfeld mewn ychydig a'r gwahoddiad l'r bwffet?

A ydi'r Cyngor yn cyflwyno anrheg? Helen yn cysylltu gyda Suzanne parthed hyn.

ADRODDIAD CYNGHORWYR SIROL –

Materion eraill drwy'r haf

- a) Man hole ger Ger y Llan – ydi hwn wedi ei drwshio? Hwn wedi ei wneud. Bod man hole arall ger ty Dewi Wynne angen sylw.
- b) Gwaith ar o chr yr afon ffordd Mochras – yn fler. Er bod ochr yr afon wedi cael ei glirio.
- c) Ffordd Sarn Hir – Gwaith yn mis Hydref – ail wynebu
- d) Cyfarfod parthed ffordd liniaru yn Mis Awst. Ychydig oedd yn cael gwahoddiad i hwn. Cafwyd gwrandawriad – cwynion y Pentref, a pheryglon y ffordd a'r bont. Ondy n chwilio am 50 miliwn i wneud y Gwaith Bellach. Dim yn debyg o gael hwn gan y CJC. Nododd Eirwyn bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynnal archwiliad o'r safle ffordd liniaru yn ystod yr haf, ac wedi llogi y Neuadd er mwyn defnyddio y trydan i wefru eu batris. Mapio 3D o gwrs y ffordd liniaru.
- e) DRONES – cyfarfod a gafwyd yn ystod yr haf (Becca Brown)
- f) Llwybrau Cyhoeddus – mae tyfiant ar rhain wedi mynd allan o reolaeth. Mae Cyngor Gwynedd yn torri rhif 70 ar ein rhan. Coed Llechi.

Wedi cael cwyn parthed llwybrau Coed Mawr hefyd – wedi cyfeirio at Gyngor Gwynedd. Angen ail osod polion i ddangos y llwybrau yma.

- g) Parcio ger Plas Newydd – hyn yn parhau yn broblem.
- h) Campervans yn aros y nos mewn lay buys yr ardal. Cyfeirio at Gyngor Gwynedd.

Tud.4

- i) Cyfarpar zoom a cyfieuthu. System sydd gan Gwynfor Owen I weld yn gweithio yn dda. Camau nesaf – Un ai llogi bob mis gan Gwynfor am £25.00 y noson, neu brynu cyfarpar am tua £400. Bydda modd I Arfon y Cyfieithydd weithio o adref. Hyn yn arbed peth arian!. Robin Ward yn awyddus I logi am y tro. Barn Luisse ddim yn siwr. Ond I ddisgwyl am roi yn y gyllideb o bosib.

Materion Eraill a drafodwyd

1. RW – gorr yrru drwy'r Pentref. Nodwyd bod strip monitors wedi eu gosod ar draws y ffordd. Ar gyfer cyfrif y nifer o gerbydau. Go Safe ddim yn gallu gweithredu mewn ardaloedd 20myw., medd Gwynfor Owen ac mae angen holi yr heddlu unwaith eto. Nododd RW nad yw hyn yn wir. Nododd GO hefyd bod pob Cyngor yn cwyno, nid yn unigryw I Lanbedr. Bod Cyngor Gwynedd yn ceisio rhoi petha mewn lle, ond dal heb weld gwelliant. Pobl leol yw'r mwyafrif sydd yn troseddu, are u ffordd I'r Gwaith ac adref yn ol. Rhybudd mae PCO's yn gallu ei gyflwyno ac nid dirwy. Angen 4 gwirfoddolwr mewn ardal I wneud y cwrs gyda camera gorr yrru.
RW – pan na allwn gael “fixed speed cameras” – ddim yn bodoli yn Gwynedd., gan nad yw Cyngor Gwynedd ddim eisiau codi dirwyuon a hwnnw yn cael ei selio yn Westminster, ac y dylai diogelwch pobl fod yn flaenoriaeth ar wleidyddiaeth.
2. Gof golofn – mwd wedi casglu ar y ffordd ger Gof Golofn – cyfeirio y mater at Cyngor Gwynedd.
3. Zoom – cyn I'r Clerc anfon gwahoddiad zoom I bawb – mae'n rhaid gwneud ar yr un diwrnod ar cyfarfod. A aelodau a aelodau o'r Cyhoedd ofyn am gwahoddiad a chyfeiriad zoom.
4. Cyfarfod Ffordd osgoi – Rhoi e bost I mewn yma.
5. Gwasanaeth Tren – lein y Cambrian – Gwynfor Owen. Nododd ei fod wedi codi y cwestiwn parthed cysgodfan Newydd, barriers dros y ffordd er diogelwch, hyd a chryfder y platform, beth am yr arwydd Talwrn Bach?